***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1272 (Cy.71)

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *29 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 (**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**)) a phob pŵer arall sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyswllt hwnnw:

(**1**) 1976 p.36 ("Deddf 1976"). Mae swyddogaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu sydd wedi'u nodi yn adran 1 o Ddeddf 1976, y mae'r pwerau o dan adran 9(2) a (3) o Ddeddf 1976 yn cael eu harfer mewn perthynas â hwy, wedi'u diwygio gan adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18)("Deddf 1999"). Deuir ag adran 9 o Ddeddf 1999 i rym ar 30 Ebrill 2001 gan O.S. 2001/1279.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf 1976 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.